Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# ADCDF

# Cynnydd mewn addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

## Mehefin 2014

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau annibynnol arbenigol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion;
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| **Argymhellion** | **6** |
| **Dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang** | **7** |
| Datblygu cynaliadwy | 7 |
| Dinasyddiaeth fyd-eang | 9 |
| Dealltwriaeth disgyblion o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel aelodau o gymunedau a grwpiau sy'n gysylltiedig ag ADCDF | 13 |
| **Gweledigaeth, polisi, cynllunio a hyrwyddo ADCDF** | **15** |
| Gweledigaeth a pholisi | 15 |
| Cynllunio | 16 |
| Hyrwyddo ADCDF | 21 |
| **Arweinyddiaeth, rheolaeth a chymorth ar gyfer ADCDF** | **22** |
| **Atodiad 1** | **28** |
| Sail y dystiolaeth | 28 |
| Sampl o ysgolion yr ymwelwyd â nhw | 28 |
| Cyfeiriadau | 28 |
| **Atodiad 2** | **30** |
| ADCDF – model o adroddiad 2006 | 30 |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | **31** |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad thematig hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn y cylch gwaith Gweinidogol i Estyn ar gyfer 2013-2014. Mae'n adrodd ar y cynnydd y mae ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig wedi'i wneud mewn addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF) er 2006 pan gyhoeddodd Estyn adroddiad gwaelodlin ar 'Sefydlu datganiad sefyllfa ar gyfer Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang yng Nghymru'. Un o ddibenion adroddiad 2006 oedd llywio cyflwyno ADCDF am y pum mlynedd nesaf.

Mae'r barnau yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio ar dystiolaeth a gasglwyd o arolygiadau gan ddefnyddio dogfen Estyn, 'Arweiniad atodol ar gyfer arolygwyr ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang mewn ysgolion.' Mae'r arweiniad atodol wedi'i strwythuro o amgylch y saith thema awgrymedig a nodwyd gan UNESCO fel rhan o ' Decade of Education for Sustainable Development' ac 'Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang – Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion' (2008) gan Lywodraeth Cymru i helpu dysgwyr i astudio ystod o faterion ADCDF a chysylltu'r rhain â chysyniadau allweddol. Dyma yw'r themâu:

- yr amgylchedd naturiol;
- defnydd a gwastraff;
- newid yn yr hinsawdd;
- cyfoeth a thlodi;
- hunaniaeth a diwylliant;
- dewisiadau a phenderfyniadau; ac
- iechyd.

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia addysg. Dylai fod o ddiddordeb i hyfforddwyr athrawon hefyd. Mae sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad wedi'i nodi yn Atodiad 1 ac mae'n cynnwys ymweliadau â sampl gynrychioliadol o ysgolion.

## Cefndir

Mae'r adroddiad wedi'i osod yng nghyd-destun blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer:

- cefnogi'r ymdrech am fwy o gynhwysiant cymdeithasol a chynorthwyo integreiddio, dealltwriaeth a goddefgarwch; a
- chefnogi datblygu unigolion sy'n meddwl yn fyd-eang ar gyfer y gweithlu.

Mae hyrwyddo ADCDF yn amcan allweddol gan Lywodraeth Cymru. Nod Llywodraeth Cymru yw annog ysgolion i ddarparu cyfleoedd i athrawon a disgyblion ystyried materion byd-eang a gwneud y cysylltiad rhwng yr hyn sy'n bersonol, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Ei nod hefyd yw annog ysgolion i herio

dysgwyr i ymgymryd â phrofiadau diwylliannol amrywiol, arfarnu eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain yn feirniadol, a datblygu medrau a fydd yn eu galluogi i herio anghyfiawnder, rhagfarn a gwahaniaethu.

Yn 2006, adolygodd Llywodraeth Cymru ei chynllun datblygu cynaliadwy a mabwysiadu 'Dechrau Byw'n Wahanol' a arweiniodd at y cynllun gweithredu: 'Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang – Strategaeth Weithredu.'

I gefnogi rhoi'r cynllun gweithredu ar waith, cynhaliodd Estyn arolwg gwaelodlin mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yng Nghymru. Cyhoeddwyd deilliannau'r arolwg yn adroddiad Estyn yn 2006, 'Sefydlu datganiad sefyllfa ar gyfer Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang yng Nghymru'.

Dyma a nodwyd yng nghanfyddiadau adroddiad 2006:

- nid oedd gan athrawon ac ymgynghorwyr ddealltwriaeth glir a chyson o ddiffiniad, pwrpas a manteision ADCDF;
- roedd ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol yn fwy hyderus ynghylch datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gyffredinol, ac yn canolbwyntio mwy arni; ac
- er bod ysgolion yn frwdfrydig ynghylch hyrwyddo datblygu cynaliadwy, roeddent yn aml yn llai clir ynghylch nodi sut a ble y gallent ddatblygu'r medrau sy'n gysylltiedig ag ADCDF.

Fe wnaeth yr adroddiad hefyd ddarparu model defnyddiol i ysgolion ei ddefnyddio wrth arfarnu eu darpariaeth ADCDF. Gweler Atodiad 2 ar gyfer y model hwn.

Lluniwyd dogfen arweiniad gan Lywodraeth Cymru, sef: 'Llywodraeth Cynulliad Cymru: Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang – Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion' yn 2008. Bwriad yr arweiniad oedd helpu ysgolion i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o ADCDF a chynorthwyo ei chyflwyno.

Mae arweiniad 2008 yn rhoi syniad clir am werthoedd ac agweddau, dealltwriaeth a medrau y dylai ADCDF eu hyrwyddo wrth baratoi dysgwyr ar gyfer yr 21ain ganrif, gan gynnwys:

- hyrwyddo economi sy'n achosi'r niwed lleiaf posibl i'r amgylchedd;
- gweithredu ar sail cyfiawnder cymdeithasol i fynd i'r afael â thlodi;
- sicrhau amrywiaeth a bioamrywiaeth i wella ein cymunedau – lleol, cenedlaethol a rhyngwladol; a
- gwerthfawrogi pobl a'u cynorthwyo i fyw bywydau iach a chyd-ddibynnol.

Dywed yr arweiniad na ddylai ADCDF gael ei gweld fel pwnc ychwanegol ond fel 'ethos y gellir ei ymgorffori ar draws ysgolion, agwedd i'w mabwysiadu, system werthoedd a ffordd o fyw'.

## Prif ganfyddiadau

### Dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

1 Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn, mae dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau allweddol datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n briodol wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol ac mae'n gyffredinol gadarn ar gyfer pob un o'r saith thema ar gyfer ADCDF.  Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a'u dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang erbyn hyn.  Mae hyn yn welliant er 2006 pan nad oedd dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang wedi'i datblygu cystal.

### Datblygu cynaliadwy

2 Yn aml, mae gan ddisgyblion ddiddordeb mawr yn yr **amgylchedd naturiol** ac mae eu dealltwriaeth ohono yn dda ar y cyfan.  Mae bron pob disgybl yn deall eu bod yn dibynnu ar yr amgylchedd am ynni, bwyd ac adnoddau eraill.  Mae llawer o ddisgyblion yn deall bod angen arbed ynni, ond yn aml o ran arbed arian yn hytrach nag adnoddau.

3 Yn yr ysgolion gorau, mae dealltwriaeth disgyblion o **ddefnydd a gwastraff** yn datblygu'n dda.  Maent yn deall o ble mae'r pethau y maent yn eu defnyddio yn dod ac i ble mae gwastraff yn mynd, er mai lleiafrif ohonynt yn unig sy'n deall cyd-ddibyniaeth cynhyrchwyr a defnyddwyr.  Prin yw'r disgyblion sy'n deall y gwahaniaeth rhwng 'safon byw' ac 'ansawdd bywyd.'

4 Prin yw'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen neu gyfnod allweddol 2 sy'n deall y gwahaniaeth rhwng hinsawdd a thywydd, ond mae bron pob un o'r disgyblion yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn deall cysyniad **newid yn yr hinsawdd** a chynhesu byd-eang a gall llawer ohonynt esbonio'r goblygiadau i'r ffordd rydym yn byw.

### Dinasyddiaeth fyd-eang

5 Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion ym mhob cyfnod allweddol ddealltwriaeth briodol o gysyniadau **cyfoeth a thlodi** a rhai o'u goblygiadau.  Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth o effeithiau anghydraddoldeb ar fywydau pobl ac maent yn deall y mathau o gymorth y gall elusennau ei ddarparu ar gyfer pobl mewn angen.  Mae gan bron pob un o'r disgyblion yn yr ysgolion uwchradd ddealltwriaeth dda o'r anghydraddoldeb sy'n bodoli rhwng pobl mewn gwahanol wledydd, a rhwng pobl o fewn gwledydd.

6 Yn gyffredinol, mae disgyblion mewn ysgolion sydd â chyfran uchel o ddisgyblion ethnig lleiafrifol yn deall effaith gwahaniaethu a rhagfarn ar unigolion yn well na disgyblion mewn ysgolion eraill.  Prin yw'r disgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 sydd â dealltwriaeth dda o **hunaniaeth a diwylliant**, gan gynnwys cysyniadau cymhleth fel y cysylltiad rhwng diwylliant, ffydd a systemau gwerthoedd a chredoau unigol.

7 Gall bron pob un o'r disgyblion yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw roi enghreifftiau o ffyrdd y maent yn gwneud **dewisiadau a phenderfyniadau** sy'n effeithio ar fywyd yr ysgol.  Maent yn dylanwadu ar waith yr ysgol trwy grwpiau fel y cyngor ysgol, y cyngor eco neu'r grŵp byw yn iach.  Maent yn sylweddoli bod canlyniadau i weithredoedd ac, ar y cyfan, maent yn gwybod sut i leihau gwrthdaro personol i'r eithaf.

8 Mae bron pob un o'r disgyblion yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn deall egwyddorion sut i ofalu am eu **hiechyd** eu hunain ac iechyd pobl eraill.  Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.  Mae bron pob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn deall effeithiau negyddol llygredd, tybaco ac alcohol ar eu hiechyd ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn deall bod ffyrdd y gellir gwella iechyd ac ansawdd bywyd mewn gwledydd o gwmpas y byd.

**Gweledigaeth, polisi, cynllunio a hyrwyddo ADCDF**

9 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer hyrwyddo ADCDF.  Mae gan yr ysgolion sydd â'r polisïau mwyaf effeithiol ar gyfer datblygu ADCDF ddiffiniad a dealltwriaeth glir o ADCDF a'r hyn y mae'n ei olygu i'w staff a'u disgyblion yng nghyd-destun eu hysgol a thu hwnt.  Mae'r eglurder hwn wrth ddeall ADCDF wedi gwella er 2006.

10 Mae gan fwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw gynlluniau effeithiol ar gyfer datblygu a chyflwyno ADCDF.  Mae bron pob ysgol yn addysgu agweddau ar ADCDF yn effeithiol trwy amrywiaeth o bynciau.  Mewn lleiafrif o'r ysgolion, nid yw cynllunio yn systematig ac mae'n dibynnu gormod ar brosiectau ar wahân a heb eu cydlynu i ymdrin â nhw.  O ganlyniad, cyfyngedig yw dealltwriaeth disgyblion o effaith eu gweithredoedd o ran ADCDF.  Pan fydd cynllunio mewn ysgolion uwchradd yn fwyaf effeithiol, mae athrawon sy'n arbenigo mewn pynciau penodol yn cynllunio ar gyfer astudio ADCDF gyda'i gilydd.  Mae hyn yn cryfhau'r ddarpariaeth ac yn sicrhau bod athrawon sydd â dealltwriaeth gryfach o'r agweddau mwy cymhleth ar ADCDF yn eu haddysgu.  O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth ddyfnach o'r agweddau hyn.

11 Mae ysgolion sydd â'r cynllunio mwyaf effeithiol yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, llythrennedd a meddwl o fewn prosiectau thematig trawsgwricwlaidd sy'n canolbwyntio ar ADCDF.  Fodd bynnag, mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, nid yw athrawon yn ymgorffori cyfleoedd digon da i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn gwaith ADCDF.  Nid yw hyn wedi gwella er 2006.

12 Mae pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a gweithgareddau eraill i hyrwyddo ADCDF ac ymestyn gwybodaeth a phrofiadau disgyblion.  Mae pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn dilyn o leiaf un cynllun achrededig mewn meysydd sy'n gysylltiedig ag ADCDF.  Fodd bynnag, prin yw'r ysgolion sy'n casglu tystiolaeth i asesu'r effaith y mae'r cynlluniau hyn wedi'i chael ar ddealltwriaeth disgyblion o gysyniadau ADCDF.

**Arweinyddiaeth, rheolaeth a chymorth ar gyfer ADCDF**

13 Pan fydd ysgolion wedi nodi aelodau o staff sydd â chyfrifoldeb clir am arwain a datblygu ADCDF, mae’r ddarpariaeth yn effeithiol ar y cyfan ac mae dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau allweddol o leiaf yn dda.  Pan nad yw cyfrifoldebau’n ddigon clir, nid yw hyn yn wir.

14 Mae gan athrawon lawer o hyder wrth gyflwyno ADCDF mewn llawer o’r ysgolion yr ymwelwyd â nhw.  Pan na roddwyd blaenoriaeth i hyfforddiant, nid yw aelodau o staff yn hyderus i addysgu’r cysyniadau mwy cymhleth sy’n gysylltiedig ag ADCDF. Byddai’r rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn elwa ar ragor o hyfforddiant mewn agweddau penodol ar ADCDF.  Byddai cyfeirlyfr o gysylltiadau arfer dda yn ddefnyddiol.

15 Mae’r rhan fwyaf o’r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cynnwys agweddau ar ADCDF yn eu gweithdrefnau hunanarfarnu.  Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn arfarnu’r cynllunio a’r cyflwyno, ond ychydig iawn o ysgolion sy’n arfarnu effaith y ddarpariaeth ar ddealltwriaeth disgyblion o ADCDF.

16 Mae gan aelod o’r corff llywodraethol gyfrifoldeb penodol am ADCDF mewn llawer o’r ysgolion yr ymwelwyd â nhw.  Ychydig iawn o lywodraethwyr sydd wedi cael hyfforddiant heblaw gan yr ysgol neu sy’n teimlo’n ddigon hyderus i herio’r ysgolion mewn perthynas ag ADCDF.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 wella dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mwy cymhleth ADCDF a nodwyd yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â hunaniaeth a diwylliant;

A2 cynllunio ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r saith thema ADCDF ar draws y cwricwlwm yn raddol, ac asesu ac olrhain datblygiad disgyblion;

A3 cynllunio ar gyfer ADCDF i wneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion;

A4 darparu amrywiaeth o gyfleoedd allgyrsiol i gefnogi ADCDF;

A5 nodi aelodau o staff i fod â chyfrifoldeb am gydlynu a datblygu ADCDF ar draws yr ysgol;

A6 darparu hyfforddiant priodol ar gyfer athrawon ac aelodau eraill o staff i'w helpu i gyflwyno ADCDF yn fwy effeithiol, gan gynnwys ei chysyniadau mwy cymhleth; a

A7 sicrhau bod llywodraethwyr yn cael hyfforddiant i'w galluogi i gefnogi a herio'r ysgol wrth gyflwyno ADCDF.

**Dylai awdurdodau lleol / consortia rhanbarthol:**

A8 sefydlu cyfeirlyfr o ddarparwyr sydd ag arfer dda mewn ADCDF, y gellir ei rannu ag ysgolion; a

A9 darparu hyfforddiant i lywodraethwyr i'w galluogi i gefnogi a herio ysgolion yn briodol o ran ADCDF.

## Dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

17 Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau allweddol datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n briodol wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol ac mae'n gyffredinol gadarn ar gyfer pob un o'r saith thema ar gyfer ADCDF.  Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a'u dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang erbyn hyn.  Mae hyn yn welliant er 2006 pan nad oedd dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang wedi'i datblygu cystal.

### Datblygu cynaliadwy

#### Yr amgylchedd naturiol

18 Yn yr ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi'u cyfareddu gan y byd naturiol ac maent yn ei barchu.  Fodd bynnag, mae eu dealltwriaeth o'r amgylchedd naturiol wedi'i chyfyngu i'w hamgylchedd uniongyrchol ar y cyfan, fel eu hysgol a'u cartref.  Gall llawer ohonynt esbonio beth sydd ei angen ar bethau byw er mwyn ffynnu.  Fodd bynnag, prin yw'r disgyblion sy'n gallu cyfeirio at nodweddion yn y byd ehangach, ac eithrio ar gyfer effaith prinder dŵr, ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n deall o ble mae pethau mae pobl yn eu defnyddio yn dod ac i ble maent yn mynd.

19 Mae bron pob un o'r disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, yn deall pwysigrwydd dangos parch at dirweddau, cynefinoedd a phethau byw.  Er enghraifft, mae disgyblion yn siarad am yr angen i ofalu am faes chwarae eu hysgol a gwneud yn siŵr nad oes unrhyw sbwriel yn yr ardal.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall anghenion pethau byw ac yn rhoi enghreifftiau o ffyrdd y maent yn rhoi'r wybodaeth hon ar waith, fel tyfu planhigion a gofalu am eu hanifeiliaid anwes.

20 Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw ddealltwriaeth briodol o gysyniad cynaliadwyedd mewn perthynas â'u hoedran a'u gallu.  Maent yn deall bod pobl yn dibynnu ar yr amgylchedd naturiol am ynni, bwyd ac am ddeunyddiau ac adnoddau eraill ar lefel leol a lefel fyd-eang.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall yr angen am ailgylchu ac ynni adnewyddadwy er mwyn cefnogi cynaliadwyedd, a gallant roi enghreifftiau penodol yn eu hardal leol.  Er enghraifft, mewn un ysgol, gallai dau ddisgybl esbonio pam roeddent wedi gosod paneli solar gartref.

21 Mewn rhai ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw, mae gwybodaeth disgyblion am faterion yn ymwneud â'r amgylchedd naturiol, newid yn yr hinsawdd, yr effaith tŷ gwydr, defnyddio gwastraff a'r angen i ddatblygu ffyrdd cynaliadwy o fyw yn arbennig o gryf.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall cysyniad cyd-ddibyniaeth organebau, gweoedd bwyd, llifoedd ynni ac effaith dylanwadau allanol ar y rhain.

## Defnydd a gwastraff

22 Yn yr ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw, mae gan bron pob un o'r disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ddealltwriaeth briodol mewn perthynas â'u hoedran a'u gallu o ddefnydd o ynni a'r angen i beidio â gwastraffu adnoddau ynni a dŵr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod am bwysigrwydd ailgylchu i leihau gwastraff, ond prin yw'r rhai sy'n deall cysyniad ynni adnewyddadwy. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n deall o ble mae pethau mae pobl yn eu prynu yn dod, ac i ble maent yn mynd.

23 Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn deall bod pobl yn dibynnu ar yr amgylchedd am ynni, bwyd a deunyddiau ac adnoddau eraill. Maent yn ymwybodol o'r angen i ailgylchu ac maent yn frwdfrydig ar y cyfan ynghylch esbonio'r ffyrdd niferus y maent yn ailgylchu yn yr ysgol ac yn y cartref. Gall bron pob un o'r disgyblion esbonio pwysigrwydd diffodd y goleuadau ac arbed dŵr hefyd. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion yn gweld yn aml fod hyn yn ymwneud yn fwy ag arbed arian, yn hytrach nag arbed ynni neu ddŵr. Yn gyffredinol, mae gwaith y pwyllgorau eco yn atgyfnerthu'r angen i ailgylchu ac arbed ynni a dŵr yn y rhan fwyaf o'r ysgolion.

24 Mae dealltwriaeth glir o ddatblygu cynaliadwy gan bron pob disgybl yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw. Er enghraifft, maent yn deall bod ôl-troed ecolegol yn mesur effaith ddynol ar yr amgylchedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r camau y mae angen eu cymryd i leihau eu hôl-troed ecolegol eu hunain a lleihau gwastraff.

25 Mae bron pob ysgol uwchradd yn gwerthfawrogi'r modd y mae pobl eraill yn dylanwadu ar, ac yn cyfrannu at, y modd y maent yn byw eu bywydau. Fodd bynnag, lleiafrif ohonynt yn unig sy'n deall y cysyniad o gyd-ddibyniaeth rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr a materion yn ymwneud â masnach deg. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall dylanwadau hysbysebu a phwysau gan gyfoedion ar ddefnydd, prin yw'r rhai sy'n deall y gwahaniaeth rhwng 'safon byw' ac 'ansawdd bywyd.'

## Newid yn yr hinsawdd

26 Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae rhai disgyblion yn deall bod ystod o safbwyntiau am effaith newid yn yr hinsawdd. Megis dechrau dod i ddeall am newid yn yr hinsawdd y mae llawer o ddisgyblion, fel y gellir ei ddisgwyl.

27 Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cydnabod bod unigolion a grwpiau o bobl yn gallu cymryd camau i addysgu ac ymgyrchu am newid yn yr hinsawdd. Maent yn deall bod ystod o safbwyntiau ynghylch sut i oresgyn newid yn yr hinsawdd, a bod hinsawdd yn gallu newid dros gyfnod. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall yr ystod o ffyrdd o arbed a chynhyrchu ynni. Er enghraifft, mewn un ysgol, astudiodd grŵp o ddisgyblion fferm wynt leol ac roeddent yn gallu esbonio pwysigrwydd ynni adnewyddadwy o gymharu â llosgi tanwydd ffosil. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn deall y gwahaniaeth rhwng hinsawdd a thywydd.

28 Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae bron pob disgybl yn deall cysyniad sylfaenol cynhesu byd-eang a gallant esbonio, er enghraifft, y gallai tywydd cynhesach arwain at doddi'r capiau iâ, a allai arwain at lifogydd mewn ardaloedd tir isel. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall y modd y gall ein gweithredoedd effeithio ar yr hinsawdd yn y blynyddoedd i ddod. Gall rhai disgyblion mwy abl siarad am oeri byd-eang a bod newid yn yr hinsawdd yn rhan o batrwm mwy o ddigwyddiadau. Maent yn gwneud cysylltiadau â digwyddiadau hanesyddol fel y chwyldro diwydiannol yn y DU i esbonio'r modd y gallai hyn fod wedi effeithio ar yr hinsawdd.

## Dinasyddiaeth fyd-eang

### Cyfoeth a thlodi

29 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae llawer o ddisgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn cydnabod y dylai fod gan bobl hawl i fodloni eu hanghenion sylfaenol. Maent yn deall effeithiau anghydraddoldeb ar fywydau pobl. Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth aeddfed yn gyffredinol o'u cyfrifoldeb i ofalu am bobl eraill sy'n llai ffodus na nhw eu hunain trwy godi arian i'w gyfrannu at elusennau amrywiol, er enghraifft. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall bod rhai pobl a gwledydd yn dlotach nag eraill, ac mae rhai disgyblion yn deall bod gweithredoedd lleol yn effeithio ar y byd ehangach oherwydd y cysylltiadau rhwng lleoedd a phobl.

30 Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn cydnabod y dylai fod gan bobl hawl i fodloni eu hanghenion sylfaenol. Gallant esbonio beth yw anghenion sylfaenol pobl a pham dylai fod ganddynt hawl i'w cael. Mae gan lawer ohonynt ddealltwriaeth gref o 'degwch', ond rhai ohonynt yn unig sy'n meddwl am hyn o ran cyfoeth mewn gwahanol wledydd.

31 Roedd dealltwriaeth gadarn gan ddisgyblion mewn rhai o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw o 'Hawliau'r Plentyn' y Cenhedloedd Unedig. Yn yr ysgolion hyn, mae cysyniad 'hawliau' yn nodwedd gref ac mae'n cyfrannu at ethos o degwch yn yr ysgol.

32 Mae dealltwriaeth dda gan bron pob disgybl yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw o'r anghydraddoldeb sy'n bodoli rhwng pobl mewn gwahanol wledydd a rhwng pobl o fewn gwledydd. Maent yn deall am 'fasnach deg' a phwysigrwydd talu 'pris teg' am nwyddau a gwasanaethau. Er enghraifft, mae disgyblion mewn un ysgol yn siarad am bobl mewn rhan benodol o'r byd sy'n datblygu sydd heb ddŵr glân a thrydan, ac y gallai gweithredoedd 'masnach deg' helpu i fodloni anghenion sylfaenol y bobl hyn.

### Hunaniaeth a diwylliant

33 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw lle mae ADCDF wedi hen ennill ei phlwyf neu ble mae canran uchel o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol, gall bron pob un o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen adnabod effaith bosibl gwahaniaethu a rhagfarn ar unigolion. Fodd bynnag, mewn ysgolion lle nad yw hyn yn digwydd, prin yw'r disgyblion sy'n deall y cysyniad hwn o oedran cynnar. Prin yw'r disgyblion yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw sy'n cydnabod eu bod yn ddinasyddion mewn byd cydgysylltiedig. Er bod llawer o ddisgyblion yn deall bod gan bobl werthoedd a chredoau gwahanol, nad yw'n annisgwyl yn y cyfnod hwn, prin yw'r rhai sy'n deall bod gwerthoedd diwylliannol a chredoau crefyddol yn ffurfio'r ffordd y mae pobl yn byw.

34 Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cydnabod eu bod yn ddinasyddion mewn byd cydgysylltiedig. Mae llawer o ddisgyblion yn deall bod gan bobl werthoedd a chredoau gwahanol er bod ganddynt ddealltwriaeth gyfyngedig o’r effaith a gaiff gwerthoedd diwylliannol a chredoau crefyddol ar ffurfio’r ffordd y mae pobl yn byw. Yn gyffredinol, mae dealltwriaeth well o effaith gwahaniaethu a rhagfarn ar unigolion gan ddisgyblion mewn ysgolion sydd â chyfran uchel o ddisgyblion ethnig lleiafrifol na disgyblion mewn ysgolion eraill.

35 Mae bron pob disgybl yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn deall pwysigrwydd parchu eu hunain, diwylliant Cymru a diwylliant pobl eraill. Mae ganddynt werthoedd cadarnhaol sy’n herio stereoteipio, rhagfarn a hiliaeth. Er enghraifft, mewn un ysgol cyfrwng Cymraeg, cadarnhaodd y disgyblion a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr arolwg eu bod yn falch o’u diwylliant a’u treftadaeth ac yn gwerthfawrogi’r ffordd y mae diwylliannau eraill yn cyfoethogi eu bywydau. Teimlant fod ADCDF yn eu hysgol yn rhoi’r cyfle iddynt ddeall eu diwylliant eu hunain yn dda tra byddant yn dysgu am ddiwylliannau eraill, a’u parchu. Mae hyn yn rhoi iddynt y wybodaeth a’r medrau i gymharu gwahanol ddiwylliannau. Fodd bynnag, yn yr ysgolion uwchradd yn gyffredinol, prin yw’r disgyblion sydd â dealltwriaeth gref o gysyniadau mwy cymhleth fel y cyswllt rhwng diwylliant, ffydd a systemau gwerthoedd a chredoau unigol.

**Dewisiadau a phenderfyniadau**

36 Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yr ymwelwyd â nhw yn gallu rhoi enghreifftiau o ffyrdd y maent yn cymryd rhan mewn agweddau ar fywyd ysgol ac yn helpu i wneud penderfyniadau. Gallai’r rhan fwyaf o’r disgyblion esbonio’r ffordd y mae’r cyngor ysgol a’r pwyllgor eco yn dylanwadu ar benderfyniadau ym mywyd yr ysgol. Maent yn deall bod canlyniadau i’w gweithredoedd ac yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i leihau gwrthdaro personol i’r eithaf. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfeirio at y system gwobrwyo a chosbi.

37 Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen mewn tua hanner o’r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn deall am Hawliau’r Plentyn a’r ffaith nad yw pawb yn gallu elwa ar yr hawliau hyn yn ymarferol. Mewn rhai ysgolion, lle mae pwyslais cryf ar Hawliau’r Plentyn, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda iawn o beth mae’r agweddau hyn yn ei olygu. Fodd bynnag, prin yw’r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen sy’n cwestiynu datganiadau a barnau pobl eraill ac ychydig iawn ohonynt yn unig sy’n deall y gall penderfyniadau rydym yn eu gwneud yn unigol ac ar y cyd effeithio ar yr amgylchedd.

38 Mae dealltwriaeth dda iawn o ddewisiadau a phenderfyniadau gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 bron ym mhob un o’r ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw. Gall bron pob un ohonynt roi enghreifftiau o ffyrdd y maent yn cymryd rhan mewn agweddau ar fywyd ysgol, yn dylanwadu ar waith yr ysgol trwy grwpiau gwahanol fel y cyngor ysgol, y pwyllgor eco neu grŵp byw yn iach. Gall llawer ohonynt roi enghreifftiau o benderfyniadau amrywiol y mae’r ysgolion wedi eu mabwysiadu o ganlyniad i’w dylanwad. Mae’r rhain yn amrywio o ddosbarthiadau peintio i ddarparu offer maes chwarae. Mae bron pob un ohonynt yn mynegi ac yn dangos parch atyn nhw eu hunain ac at bobl eraill. Maent yn cymryd eu tro i ateb cwestiynau ac yn gwrando’n ystyriol ar farnau cyfoedion, gan adeiladu ar eu syniadau’n dda. Mae disgyblion yn sylweddoli bod canlyniadau i weithredoedd ac maent yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i leihau gwrthdaro.

39 Mae dealltwriaeth dda gan ddisgyblion yn y rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw o Hawliau'r Plentyn a'r ffaith nad yw pob plentyn yn cael ei hawliau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwerthfawrogi pwysigrwydd dadl gytbwys a gefnogir yn dda, a gall llawer ohonynt roi enghreifftiau o ddadleuon neu drafodaethau a gânt yn yr ysgol.

40 Mae bron pob disgybl yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn gwerthfawrogi manteision datrys gwrthdaro yn heddychol.  Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o gymhlethdod gwneud penderfyniadau a'r angen i ddefnyddio tystiolaeth yn briodol wrth lunio barnau.  Mae bron pob un ohonynt yn deall egwyddorion democratiaeth ac yn cysylltu eu dealltwriaeth â'r cyngor ysgol.  Mae llawer ohonynt yn cyfeirio at wersi hanes, lle maent yn dysgu am y modd y bu i bobl ymgyrchu am yr hawl i bleidleisio. Maent yn cysylltu hyn â'r ffordd y maent yn ethol aelodau o'r cyngor ysgol a'r modd y mae penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan eu cynrychiolwyr yn effeithio arnynt yn yr ysgol.   Mae llawer ohonynt yn deall y modd y gall gwrthdaro godi o wahanol safbwyntiau am faterion byd-eang ac yn rhoi enghreifftiau o hyn, er enghraifft o ran ffermydd gwynt lleol.

**Iechyd**

41 Mae bron pob un o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn gwybod sut i ofalu am eu hiechyd eu hunain ac iechyd pobl eraill ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu.  Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth sylfaenol o beth sy'n gwneud ffordd iach o fyw ac maent yn cydnabod eu cyfrifoldebau i gadw nhw eu hunain a phobl eraill yn ddiogel.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd dŵr glân ar gyfer iechyd a bod tlodi ac anghydraddoldeb yn gallu achosi problemau iechyd.  Fodd bynnag, prin yw'r disgyblion sydd â dealltwriaeth glir o effaith yr amgylchedd ar iechyd a lles.

42 Yng nghyfnod allweddol 2, gall bron pob un o'r disgyblion yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw i ddisgrifio sut i ofalu am eu hiechyd eu hunain ac iechyd pobl eraill.  Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach, cael diet cytbwys, dŵr glân a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd fel elfennau o ffordd iach o fyw.  Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth briodol o effeithiau negyddol llygredd, tybaco, alcohol a chamddefnyddio sylweddau eraill ar eu hiechyd.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydnabod eu cyfrifoldebau i gadw nhw eu hunain a phobl eraill yn ddiogel.  Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi pwysigrwydd eu teulu a'u cymuned leol i'w cadw'n ddiogel ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall bod tlodi ac anghydraddoldeb yn gallu arwain at safon iechyd is.

43 Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae bron pob un o'r disgyblion yn deall ystyr ffordd iach o fyw, ac maent yn deall y cysylltiadau rhwng ffordd iach o fyw a lles corfforol ac emosiynol.  Gallant esbonio sut i gadw'n heini ac iach a gallant roi enghreifftiau o ffyrdd y maent yn bwyta'n iach.  Mae bron pob un o'r disgyblion yn cefnogi gweithgareddau penodol y mae'r ysgol yn eu cynnal i gefnogi lles disgyblion fel dosbarthiadau arbenigol a chlybiau chwaraeon allgyrsiol.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall ffyrdd y gellir gwella iechyd ac ansawdd bywyd mewn gwledydd o gwmpas y byd.  Er enghraifft, maent yn deall bod pobl yn gallu cymhwyso gwyddoniaeth, gweini meddyginiaethau a defnyddio technoleg i wella cyfleoedd iechyd a bywyd.

44 Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn gallu dangos dealltwriaeth o beth sy’n helpu i’w cadw’n iach ac nad yw unigolion mewn gwahanol rannau o’r byd yn gallu mwynhau rhai o’r manteision hyn.  Gall disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ddangos dealltwriaeth fanylach o’r cysyniadau hyn.  Er enghraifft, mae dealltwriaeth well gan y rhai sy’n astudio gwyddorau chwaraeon o effaith diet a’r amgylchedd naturiol ar berfformiad athletwyr o wahanol wledydd.

45 Mae astudiaeth achos 1 yn egluro’r modd y caiff ADCDF ei hymgorffori ac mae wedi dod yn nodwedd amlwg ym mhob dosbarth mewn un ysgol.

**Astudiaeth achos 1**

**Cyd-destun**

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd yw Ysgol Y Berllan Deg.  Mae 453 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, ac mae 9% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

**Strategaeth**

Mae arweinwyr wedi nodi bod ADCDF yn nodwedd bwysig o waith yr ysgol ac mae wedi penodi tîm o gydlynwyr i sicrhau bod pob agwedd ar ADCDF yn cael eu cyflwyno’n effeithiol.  Mae gan yr ysgol gydlynydd ar gyfer: y cyngor eco, dinasyddiaeth fyd-eang, ‘Bocsys Bach y Berllan’ (ffordd greadigol o gasglu barn disgyblion) a’r cyngor ysgol.  O ganlyniad i gynllunio effeithiol, cydweithredol a chreadigol, mae ADCDF wedi dod yn nodwedd ymgorfforedig o arfer yr ysgol ac mae’n dylanwadu’n uniongyrchol ar lawer o weithgareddau’r ysgol mewn llawer o feysydd eraill y cwricwlwm.

**Gweithredu**

Mae pob grŵp blwyddyn yng nghyfnod allweddol 2 yn gyfrifol am faes cynaliadwyedd penodol am y flwyddyn.  Mae’r rhain yn cynnwys gweithgareddau fel casglu sbwriel, diffodd goleuadau a dŵr, gofalu am ardd lysiau’r ysgol, a chompostio ac ailgylchu.  Mae hyn yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd o fewn amgylchedd yr ysgol.

Mae cydlynwyr yn cynllunio gweithgareddau i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o elfennau allweddol penodol o ADCDF trwy ddigwyddiadau trawsgwricwlaidd sydd wedi’u cynllunio’n ofalus fel: ‘Dydd Mawrth Maethlon’.  Er enghraifft, caiff disgyblion eu hannog i goginio rysáit hwmws maethlon, ac wedyn addasu’r rysáit i fwydo gwahanol niferoedd.  Mae hyn yn annog defnydd o rifedd mewn cyd-destun bywyd go iawn.

Mae gweithgareddau llwyddiannus eraill sy’n cael eu hyrwyddo gan y cyngor ysgol i annog bwyta’n iach yn cynnwys cystadleuaeth gelf i ddylunio’r cymeriad cartŵn gorau i hyrwyddo bwyta’n iach a chynnig gwobrau am y bocs bwyd iachaf.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos gydag ysgolion yn Lesotho a Phatagonia, sy’n annog disgyblion i ddysgu am bwysigrwydd dinasyddiaeth fyd-eang a bywyd mewn gwahanol rannau o’r byd.  Mae athrawon o Lesotho yn ymweld â’r ysgol bob

blwyddyn, ac mae hyn yn galluogi disgyblion i'w holi'n uniongyrchol am fywyd yn eu gwlad. Mae disgyblion hŷn yn trefnu diwrnod chwaraeon blynyddol er mwyn codi arian ar gyfer eu hysgol bartner yn Lesotho.

Yn dilyn ymweliad ag ysgolion yng Ngwlad y Basg, lle caiff disgyblion eu hannog i ddysgu mwy na dwy iaith, mae'r ysgol yn datblygu prosiect llythrennedd teirieithog gyda disgyblion Blwyddyn 6 ar y cyd ag ysgolion eraill yn y clwstwr. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar chwedlau trwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg ac Almaeneg.

**Deilliannau**

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer ystod eang o weithgareddau ADCDF trawsgwricwlaidd wedi sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion:

- yn meddu ar ddealltwriaeth glir o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu;
- yn sylweddoli bod ADCDF yn ymwneud â phobl go iawn mewn byd go iawn;
- yn datblygu dealltwriaeth well o fyw yn iach;
- yn ennill dealltwriaeth gynyddol o dair iaith; ac
- yn gwneud ac yn cymryd rhan mewn penderfyniadau gwybodus am lawer o agweddau ar fywyd yr ysgol.

**Dealltwriaeth disgyblion o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel aelodau o gymunedau a grwpiau sy'n gysylltiedig ag ADCDF**

46 Mae cyngor ysgol a phwyllgor eco gan bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, yn ogystal â llawer o bwyllgorau a grwpiau eraill sy'n ymwneud ag ADCDF. Mae'r rhain, er enghraifft, yn cynnwys grwpiau bwyta'n iach ac ysgolion iach, pwyllgorau masnach deg, grwpiau pontio'r cenedlaethau a grwpiau rhyngwladol a phwyllgorau codi arian ac elusennol. Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n aelodau o'r pwyllgorau a'r grwpiau hyn yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o ddiben y pwyllgorau neu'r grwpiau a gallant esbonio gwaith pob un ohonynt. Mae gan y rhan fwyaf o bwyllgorau swyddogion etholedig, sy'n glir ynglŷn â'u rolau.

47 Mae astudiaeth achos 2 yn rhoi enghraifft o glwb pontio'r cenedlaethau mewn ysgol gynradd sy'n gwella ymwybyddiaeth disgyblion o anghenion pobl eraill.

**Astudiaeth achos 2**

**Cyd-destun**

Mae 435 o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Plascrug, Aberystwyth. Mae tua 11% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a daw 25% o gefndir ethnig lleiafrifol.

**Strategaeth**

Mae'r ysgol wedi sefydlu clwb pontio'r cenedlaethau a'i nod yw datblygu dealltwriaeth

a pharch rhwng pobl o bob oedran. Mae wedi gweithio gyda Swyddog Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Ceredigion a chymdeithas dai leol i sefydlu'r prosiect. Mae aelodau yn cynnwys disgyblion Blwyddyn 6 a phreswylwyr o ddau o sefydliadau'r gymdeithas yn Aberystwyth.

**Gweithredu**

- Nododd disgyblion Blwyddyn 6 yr angen i gael dealltwriaeth bellach o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl 29, sy'n datgan y dylai addysg plant eu helpu i ddatblygu eu doniau a'u galluoedd a'u helpu i ddysgu byw yn heddychol, diogelu'r amgylchedd a pharchu pobl eraill.
- Roedd Iechyd a Lles Emosiynol yn faes i'w ddatblygu wrth i'r ysgol wneud cynnydd tuag at ennill Gwobr Ansawdd Genedlaethol y Rhwydwaith Ysgolion Iach. Archwiliodd disgyblion Blwyddyn 6 Erthygl 29 gan ganolbwyntio ar ddatblygu dysgu pontio'r cenedlaethau yn y gymuned.
- Nododd disgyblion bartneriaid posibl o'r ardal. Ffurfiwyd partneriaeth rhwng Ysgol Gynradd Plascrug, Swyddog Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Cyngor Sir Ceredigion a chymdeithas dai ddielw leol.
- O ganlyniad i gyfarfodydd cynllunio buddiol a lledaenu gwybodaeth ymhlith rhanddeiliaid, cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol 'Clwb Ni' ym Mai 2011.
- Archwiliodd y cyfarfod prosiect cychwynnol syniadau a barnau'r holl randdeiliaid. Nododd disgyblion a phreswylwyr ystod o weithgareddau ac fe wnaethant bennu rheolau sylfaenol, a fyddai'n ategu'r cyfleoedd dysgu ar draws y cenedlaethau.
- Roedd rhaglen gytûn o weithgareddau yn canolbwyntio ar drosglwyddo medrau ar draws y cenedlaethau yn cael ei chynnal bob mis, bob yn ail rhwng y lleoliadau. Roedd gweithgareddau'n amrywio o drafod cynlluniau adfywio trefi, gan ystyried anghenion pobl ifanc a hen bobl i gymharu profiadau plentyndod trwy gerddoriaeth a chwarae.
- I adeiladu ar flwyddyn gyntaf lwyddiannus y clwb, gwnaed cais am Grant Arian i Bawb y Gronfa Loteri Fawr. Bu'r cais yn llwyddiannus, a galluogodd y clwb i ehangu ei ystod o gyfleoedd dysgu trwy weithio gydag aelodau o'r gymuned ehangach. Roedd y rhain yn cynnwys medrau ffotograffiaeth ddigidol a gweithio gydag artistiaid lleol i greu canfasau yn portreadu gwerthoedd craidd y clwb, sydd bellach yn cael eu harddangos ym mhob canolfan.
- Daeth y bobl hŷn yn rhan annatod o'r ysgol ac maent yn mynychu digwyddiadau ysgol yn rheolaidd.
- Mae 'Clwb Ni' yn ei thrydedd flwyddyn erbyn hyn ac mae'n rhan annatod o ymrwymiad disgyblion Blwyddyn 6 i weithio mewn partneriaeth.

**Deilliannau**

Mae cyfranogiad disgyblion yn y gwaith hwn wedi cyfrannu tuag at gryfhau eu medrau gwneud penderfyniadau a'u rôl mewn ymglymiad cymunedol. Mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, caiff eu llais ei glywed, ac mae disgyblion yn parchu, yn gwerthfawrogi ac yn deall y cyfraniad y gall unigolion ei wneud i gymdeithas, beth bynnag fo'u hoedran.

48 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn sicrhau bod y grwpiau hyn yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae ganddynt system gyfathrebu glir i sicrhau bod pob

disgybl, yn ogystal â rhanddeiliaid ehangach fel llywodraethwyr a rhieni, yn cael adborth o gyfarfodydd. Maent yn gwneud hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys trwy hysbysfwrdd dynodedig, adborth gan aelodau i gymheiriaid, cyflwyniadau mewn gwasanaeth, llyfrau lloffion a bwletinau newyddion rheolaidd.

49 Roedd bron pob un o'r disgyblion yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn teimlo bod athrawon yn cymryd eu hawgrymiadau o ddifrif ac yn gweithredu yn unol â nhw. Maent yn disgrifio ffyrdd y maent wedi newid pethau yn yr ysgol. Mae enghreifftiau yn cynnwys codi arian ar gyfer elusennau a ddewiswyd gan y disgyblion a darparu offer chwaraeon a mwy o finiau ailgylchu a gwastraff ar gyfer yr ysgol, yn ogystal â chefnogi cyflwyno gardd ysgol.

50 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ethol aelodau o'r cyngor yn ddemocrataidd, gan sicrhau cynrychiolaeth deg ar draws yr ysgol. Mae aelodau o bwyllgorau eco ysgolion yn fwy tebygol o fod yn aelodau trwy ddewis, am fod ganddynt ddiddordeb arbennig mewn cynaliadwyedd.

51 Er bod gan aelodau o'r pwyllgorau ddiddordeb yn ei waith yn gyffredinol, yn gyffredinol, nid yw eu dealltwriaeth o faterion datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi'u datblygu'n well na rhai disgyblion nad ydynt yn aelodau.

## Gweledigaeth, polisi, cynllunio a hyrwyddo ADCDF

### Gweledigaeth a pholisi

52 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae gan arweinwyr weledigaeth glir am lawer o agweddau ar ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn dda ac yn archwilio, ar y cyd â phobl eraill, sut i'w chyflawni trwy'r cwricwlwm, rhaglenni allgyrsiol a gweithgareddau ehangach yr ysgol.

53 Mae arweinwyr ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cydnabod y modd y mae'r gwerthoedd a'r agweddau sy'n cael eu hyrwyddo trwy ADCDF yn cyfrannu at ethos cyffredinol yr ysgol. Er enghraifft, mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn disgrifio'u hunain fel ysgolion gofalgar, lle mae pwysigrwydd parch yn nodwedd amlwg. Mae un ysgol gynradd yn disgrifio'i hethos fel 'hinsawdd o ddealltwriaeth, gofal, gwerth a pharch ar y ddwy ochr', sy'n portreadu'r ethos yn yr ysgol arbennig honno yn dda. Mae ysgol arbennig yr ymwelwyd â hi wedi mabwysiadu ei datganiad cenhadaeth ei hun sy'n disgrifio'i hethos yn syml fel: 'Gofalu am ein byd fel y bydd yn para am byth.' Mae disgyblion ac oedolion o'r gymuned ysgol gyfan yn deall y datganiad cenhadaeth hwn.

54 Mae arweinwyr mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn disgrifio ADCDF fel cyd-destun a chyfrwng ar gyfer datblygu medrau eraill fel medrau llythrennedd, rhifedd, datrys problemau a meddwl, yn ogystal â datblygu dealltwriaeth o gysyniadau sy'n gysylltiedig ag ADCDF. Adlewyrchir hyn yng ngwaith llawer o'r ysgolion hyn o ddydd i ddydd. Yn yr ysgolion hyn, mae ADCDF yn cyfrannu'n effeithiol at fedrau meddwl beirniadol disgyblion, ac yn eu helpu i ddeall yr heriau sy'n wynebu byd sy'n newid.

55 Mae polisi ar gyfer datblygu ADCDF gan bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd. Fodd bynnag, mae'r polisi mewn rhai o'r ysgolion hyn yn newydd ac nid yw wedi cael amser i effeithio'n gadarnhaol ar ddealltwriaeth disgyblion o bob agwedd ar ADCDF.

56 Pan fydd ADCDF yn nodwedd a ymgorfforir yn yr ysgol, ac mae ganddi broffil uchel, mae'r polisi fel arfer yn glir a phriodol, gan adlewyrchu cyd-destun yr ysgol yn dda. Mae'n disgrifio'n glir y modd y mae'r gwahanol agweddau ar ADCDF yn gweu trwy'r cwricwlwm cyfan gan roi profiadau cyffrous a pherthnasol i ddisgyblion.

57 Mae'r polisïau mwyaf effeithiol yn rhoi diffiniad clir o ADCDF a'r hyn y mae'n ei olygu i'w staff a'u disgyblion. Er enghraifft, mae un ysgol gynradd sydd â pholisi effeithiol wedi'i enwi yn: 'Gwneud byd o wahaniaeth' ('Making a world of difference'). Mae ysgol arall yn cyfleu ei dull o gwmpasu ADCDF i staff a disgyblion yn dda trwy seilio'i pholisi ar ei 'chod eco': 'Paid â bod yn ddiog – byddai peidio ag ailgylchu yn ddiog – lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu, adfer a pharch'. ('Don't be lazy – not to recycle would be crazy – reduce, re-use, recycle, restore and respect').

58 Mae polisïau'r rhan fwyaf o ysgolion yn datgan nodau ac amcanion datblygu ADCDF yn glir. Mae llawer ohonynt yn cyfeirio at saith maes ADCDF Llywodraeth Cymru ac yn rhoi cefndir i flaenoriaethau'r cwricwlwm sy'n gysylltiedig â hi. Mae ysgolion yn aml yn seilio'r polisïau hyn ar bolisi enghreifftiol a ddarperir gan yr awdurdod lleol ac maent yn addasu hwn yn effeithiol ar y cyfan yn unol â'u hanghenion penodol. Pan fydd yr ysgol wedi ysgrifennu ei pholisi ar y cyd, a'r rhan fwyaf o athrawon yn cyfrannu'n uniongyrchol at ei gynnwys, mae effaith gadarnhaol ar safonau a dealltwriaeth disgyblion o elfennau allweddol ADCDF.

59 Mae arweinwyr bron ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn monitro'r polisi yn rheolaidd, fel rhan o'u prosesau monitro parhaus. Yn gyffredinol, mae'r corff llywodraethol yn derbyn y polisi fel y mae wedi'i gyflwyno, er mae gan ychydig iawn o lywodraethwyr rôl weithredol mewn ysgrifennu neu herio'i gynnwys.

## Cynllunio

60 Mae cynlluniau effeithiol ar gyfer datblygu ADCDF gan fwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Mewn ysgolion lle mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o gysyniadau a gwerthoedd allweddol ADCDF, mae cynllunio yn systematig ac yn cwmpasu datblygiad y nodweddion a'r egwyddorion allweddol ar draws yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau dilyniant flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r cynllunio mwyaf effeithiol yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, llythrennedd a meddwl o fewn prosiectau thematig trawsgwricwlaidd sy'n canolbwyntio ar egwyddorion allweddol ADCDF.

61 Mewn lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, nid yw cynllunio yn systematig ac mae'n dibynnu gormod ar brosiectau ar wahân i sicrhau ymdriniaeth. O ganlyniad, mae dealltwriaeth disgyblion o'r berthynas rhwng pob un o werthoedd ac egwyddorion allweddol ADCDF yn aml yn gyfyngedig.

62 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae cynllunio ar gyfer ADCDF yn rhan allweddol o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Rhoddir pwyslais clir ar gynllunio gweithgareddau dysgu ymarferol dan do ac yn yr awyr agored, ac ymwybyddiaeth o'r amgylchedd a'r bobl amrywiol sy'n byw yno. Mae hyn yn ffurfio sylfaen gadarn i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

63 Mewn llawer o ysgolion cynradd ac arbennig lle mae dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau allweddol ADCDF yn dda neu'n well, mae athrawon yn aml yn cynllunio elfennau penodol o'r gwaith o fewn themâu trawsgwricwlaidd. Pan wneir hyn yn dda, mae'n sicrhau ymdriniaeth o fewn graddfa amser benodol a dilyniant flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r dull hwn yn helpu disgyblion i ddysgu am gyd-ddibyniaeth cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Gwelwyd enghraifft dda o ddull trawsgwricwlaidd lle mae datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gysylltiedig â'i gilydd mewn ysgol lle roedd disgyblion yn cymharu eu hardal, gan gynnwys datblygu fferm wynt leol, gyda rhai ysgolion partner mewn gwledydd eraill.

64 Mae astudiaeth achos 3 yn egluro'r modd y bu i ysgol arbennig yr ymwelwyd â hi ar gyfer yr arolwg gynllunio a rhoi prosiect integredig ar waith yn llwyddiannus wedi'i seilio ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

**Astudiaeth achos 3**

**Cyd-destun**

Mae 233 o ddisgyblion rhwng tair ac 19 oed yn mynychu Ysgol Heronsbridge, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae gan bob disgybl ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig ar gyfer anawsterau dysgu difrifol, dwys neu gymhleth.

Yn 2006, ymunodd Heronsbridge â chlwstwr o naw o ysgolion 'Cysylltu Ystafelloedd Dosbarth ('Connecting Classrooms') y Cyngor Prydeinig: tair ysgol yr un o Ben-y-bont ar Ogwr, Tansanïa a Botswana. Ers hynny, mae'r prosiect wedi parhau â gweithgareddau sydd wedi cynnwys 44 o ymweliadau cyfnewid athrawon rhwng Heronsbridge a'r ysgolion eraill. Mae hyn wedi arwain at ddealltwriaeth well o faterion ADCDF yn yr ysgolion hyn. Yn benodol, mae athrawon sy'n dychwelyd i Affrica wedi dod yn eiriolwyr llwyddiannus dros gyfle cyfartal i ddisgyblion ag anableddau dysgu ac anableddau corfforol yn eu hysgolion.

**Strategaeth**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel rhan o raglen ADCDF yr ysgol, mae'r ysgol wedi cyflwyno cyfres o brosiectau garddio, sydd wedi ennill gwobrau yn sioeau blodau'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol gan gynnwys Chelsea. Nod y prosiectau oedd archwilio materion cynaliadwyedd, dysgu medrau garddio, datblygu agweddau cadarnhaol at fwyta'n iach a chyfrannu at ddealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang. I adeiladu ar lwyddiant yr ysgol a hyrwyddo ADCDF ymhellach, sefydlodd yr ysgol gyfres o brosiectau cysylltiedig â'i hysgolion partner yn Nhansanïa a Botswana.

**Gweithredu**

Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau cyllid gan elusen o Gymru i ddatblygu prosiectau graddio ar raddfa fach ac ar raddfa fawr fel ei gilydd fel rhan o'i rhaglen ADCDF. Mae llawer o'r prosiectau yn canolbwyntio ar dyfu bwyd mewn ffordd gynaliadwy gydag ysgolion partner yn Nhansanïa a Botswana. Er enghraifft, yn 2012, estynnodd Heronsbridge ei phrosiect garddio i gynnwys cadw gwenyn. Fe wnaeth hyn ysbrydoli ysgol bartner yn Nhansanïa i sefydlu prosiect tebyg y mae'n ei ddatblygu'n ffynhonnell incwm.

Ar raddfa fwy, fe wnaeth cyllid elusennol alluogi ei hysgolion partner yn Affrica i osod ffensys, rhwydi cysgodi a system ddyfrhau fel y gallai disgyblion efelychu prosiect plannu a chynaeafu bwyd Heronsbridge.  Yn yr ysgolion yn Affrica, defnyddir y bwyd a gynhyrchir i ychwanegu at ginio ysgol, darparu blychau bwyd ar gyfer plant sy'n agored i niwed fel plant amddifad neu blant â HIV, ac fe gaiff ei werthu i ddarparu incwm bach.

Yn 2013, i archwilio materion cynaliadwyedd ymhellach, ymchwiliodd disgyblion yn Heronsbridge i'r cysyniad o ddefnyddio garddio twll clo, sef dull o arddio sydd wedi'i seilio ar ailgylchu, compostio ac arbed dŵr.  Cytunodd pob ysgol yn y bartneriaeth fyd-eang i adeiladu gardd twll clo.  Fe wnaeth ysgolion gyfnewid cynlluniau a ffotograffau o adeiladu'r gerddi twll clo, a oedd yn cynnwys defnyddio deunyddiau lleol, a phlannu a chynaeafu cnydau.  Adeiladodd disgyblion Heronsbridge ardd twll clo ym mherllan yr ysgol ac arddangosiad arall a enillodd wobr canmoliaeth uchel yn sioe'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol yng Nghaerdydd yn 2013.

**Deilliannau**

Yn yr ysgolion yn Affrica, mae cymryd rhan yn y prosiectau ADCDF wedi cael effaith sylweddol ar bresenoldeb.  Mae hyn yn bennaf am fod disgyblion wedi cael y cyfle i gael pryd maethol bob dydd, sy'n cynnwys cynnyrch wedi'i dyfu o'r prosiectau garddio.  Mae hyn wedi arwain at gyfraddau llwyddo llawer gwell ar gyfer pontio o addysg gynradd i addysg uwchradd.

Mae'r prosiect wedi helpu disgyblion Heronsbridge i:

- gael dealltwriaeth well o'r amgylchedd naturiol, cynaliadwyedd, newid yn yr hinsawdd a bwyta'n iach;
- magu hyder, gwydnwch a chyflawniad trwy gymryd rhan mewn prosiectau sy'n eu herio ac yn gofyn am eu hymroddiad;
- datblygu eu medrau meddwl, trefnu, cyfathrebu a gwneud penderfyniadau trwy weithio gyda chyfoedion ac oedolion yn y gymuned leol a chymunedau ysgol bartner rhyngwladol; a
- datblygu synnwyr gwell o ddinasyddiaeth fyd-eang a dealltwriaeth o wledydd eraill.

65 Mewn lleiafrif o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, lle mae cynllunio yn llai llwyddiannus, nid yw athrawon yn cynllunio gwaith ADCDF yn ddigon da ac mae elfennau allweddol ar ADCDF yn aml ar ffurf prosiectau bach ar wahân.  Mae rhai ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio cynlluniau achredu fel statws ysgol eco a gwobrau ysgolion iach fel y prif gyfryngau i addysgu agweddau ar ADCDF.  Fodd bynnag, mae hyn yn aml yn golygu mai agweddau penodol ar ADCDF ar wahân yn unig y mae disgyblion yn eu deall, heb sylweddoli'r gyd-ddibyniaeth rhyngddynt.

66 Mae bron pob ysgol yn defnyddio meysydd cwricwlaidd penodol fel daearyddiaeth, gwyddoniaeth, celf, dylunio a thechnoleg ac addysg grefyddol yn gyfryngau ar gyfer cyflwyno agweddau ar ADCDF.  Mae llawer ohonynt yn defnyddio ADCDF yn gatalydd i gyflwyno pynciau neu destunau eraill hefyd.

67 Pan fydd ysgolion uwchradd yn fwyaf effeithiol, mae athrawon sy'n arbenigo mewn pynciau penodol, fel daearyddiaeth, gwyddoniaeth, celf, dylunio a thechnoleg ac addysg grefyddol, yn cynllunio ymdriniaeth ag ADCDF gyda'i gilydd.  Mae hyn yn cryfhau'r ddarpariaeth ac yn sicrhau bod athrawon sydd â dealltwriaeth well o feysydd mwy cymhleth ADCDF yn addysgu'r rhain.  O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth ddyfnach.  Enghraifft o hyn yw gwaith yr ysgol yn astudiaeth achos 4.

**Astudiaeth achos 4**

**Cyd-destun**

Ysgol gydaddysgol 11-16 yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot yw Ysgol Gymunedol Cwmtawe.  Mae 1,270 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae 18% ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.  Caiff ADCDF ei hintegreiddio mewn arfer ysgol ac addysgu, ac fe'i cefnogir gan gydlynydd yr ysgol.  Mae disgyblion yn ymdrin â saith thema ADCDF ar draws y cwricwlwm ac mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a mentrau allgyrsiol.

**Strategaeth**

Ymgymerodd yr ysgol ag ymarfer mapio ysgol gyfan o'r ddarpariaeth ADCDF i wirio parhad ac ymdriniaeth â saith thema ADCDF ar draws y cwricwlwm.

**Gweithredu**

Trefnodd yr ysgol gyfarfod gyda phenaethiaid adran i amlinellu saith thema ADCDF.  Wedyn, cynhaliodd staff archwiliad cwricwlwm o'r holl bynciau ar draws cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 er mwyn nodi ble roeddent yn ymgorffori themâu ADCDF yn y cynlluniau gwaith presennol.  Wedyn, fe wnaethant gyfateb gwahanol themâu a llunio grid cynllunio ac enghreifftiau o waith disgyblion ar gyfer ystod o weithgareddau.  Casglodd cydlynydd ADCDF y gridiau hyn at ei gilydd a rhoddodd enghreifftiau mewn portffolio tystiolaeth o arfer dda, sy'n ddefnyddiol ar gyfer llywodraethwyr, staff a phobl sy'n ymweld â'r ysgol.  Yn eu gridiau cynllunio, mae athrawon yn rhoi cynnwys penodol o raglenni astudio cyfnod allweddol 3 a manylebau TGAU, yn ogystal â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â mentrau ysgol gyfan fel mentrau 'Ysgolion eco' ac 'Ysgolion Iach', gweithgareddau allgyrsiol a gwibdeithiau.

**Enghraifft o ran o grid cyflawn ar gyfer daearyddiaeth yng nghyfnod allweddol 3:**

| Blwyddyn | Testun | Cyfoeth a thlodi | Dewisiadau a phenderfyniadau | Yr amgylchedd naturiol | Hunaniaeth a diwylliant | Iechyd | Defnydd a Gwastraff | Newid yn yr Hinsawdd | Enghraifft |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Cymru | √ | √ | √ | √ | √ | | | Caiff Cymru a Jamaica eu cymharu a'u cyferbynnu o ran cyfoeth, cyflogaeth, llythrennedd, ac ati<br><br>Gwrthdaro mewn Parciau |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | Cenedlaethol – asesiad wedi'i seilio ar nodi gwrthdaro rhwng defnyddwyr, eu heffaith ar bobl eraill a'r amgylchedd ac atebion a baratowyd. |
| 7 | Peryglon | √ | √ | | | √ | √ | | Cymharu'r ymateb â pheryglon mewn MEDSs – y daeargryn yn Siapan yn 2011 a'r Tsunami yn 2006.<br><br>Adeiladu model o losgfynydd o ddeunyddiau gwastraff. |
| 7 | Medrau map | | | √ | | | | | Mae disgyblion yn defnyddio mapiau Arolwg Ordnans i gynllunio teithiau cerdded Gwobr Dug Caeredin a dod o hyd i nodweddion lleol datblygu medrau nodi nodweddion naturiol ar fap. |

**Deilliannau**

Mae'r gridiau mapio yn galluogi athrawon i nodi meysydd lle caiff ADCDF ei hymgorffori eisoes yn ogystal â chyfleoedd i ddatblygu ymhellach.

Mae'r gridiau wedi'u coladu hefyd yn galluogi'r cydlynydd ADCDF i edrych ar ddarpariaeth gyffredinol ar draws y cwricwlwm a nodi p'un a oes ymdriniaeth gyfartal â'r saith thema neu a oes angen datblygu cynnwys neu weithgareddau. Mae hyn yn arwain at ddiwygio mewn cynllunio, lle bo'n briodol.

Wrth i gynlluniau gwaith gael eu hadolygu a'u diweddaru, gellir diwygio ADCDF yn hawdd trwy gyfeirio at y gridiau. Caiff ADCDF ei hintegreiddio'n llawn yn y cwricwlwm erbyn hyn gyda mewnbwn o'r holl bynciau, a phwysau cyfartal rhwng materion amgylcheddol, datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. O ganlyniad, gall disgyblion nodi cysylltiadau rhwng testunau'r cwricwlwm a mentrau yn yr ysgol.

68 Mae cynllunio yn y rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn rhoi cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u hagweddau yn y rhan fwyaf o agweddau ar ADCDF sy'n berthnasol i'w rôl wrth ofalu am y byd. Mae'r agweddau hyn yn nodweddion cryf o Fagloriaeth Cymru. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys gwaith gyda banciau bwyd lleol, prosiectau masnach deg, cynnal ffug gynhadledd y Cenhedloedd Unedig, ac astudio Mandarin fel elfen iaith Bagloriaeth Cymru mewn astudiaeth o Tsieina.

69 Mae gan bron bob ysgol weithdrefnau yn eu lle i uwch arweinwyr fonitro ac arfarnu dogfennau cynllunio yn rheolaidd. Fodd bynnag, prin yw'r ysgolion sy'n cynnwys ADCDF fel agwedd ar wahân o'r gweithdrefnau hyn. Yn yr ysgolion prin sy'n monitro ac yn arfarnu cynllunio ADCDF, mae'r ffocws yn gyffredinol ar ymdriniaeth yn hytrach nag ansawdd y ddarpariaeth.

**Hyrwyddo ADCDF**

70 Mae pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol i hyrwyddo ADCDF ac ymestyn gwybodaeth a phrofiad disgyblion. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- clwb eco;
- cyngor ysgol;
- clwb diwylliant;
- clwb garddio – rhandir a marchnad ffermwyr;
- clybiau chwaraeon – chwaraeon amrywiol;
- clwb coginio iach;
- clwb Prosiect Comenius;
- grŵp masnach deg;
- Ysgolion Coedwig;
- gweithgareddau codi arian;
- prosiectau cymunedol;
- clybiau iaith; a'r
- Urdd

71 O'u cynllunio'n effeithiol, mae'r gweithgareddau hyn yn gwella hyder disgyblion ac yn gwella'r cyfleoedd iddynt ddysgu mwy am faterion yn gysylltiedig ag ADCDF; er enghraifft, mae'r clwb eco yn gwella dealltwriaeth aelodau o faterion cynaliadwyedd, tra bod y clwb coginio iach yn annog bwyta'n iach, ac mae clwb Prosiect Comenius yn codi ymwybyddiaeth disgyblion am ddinasyddiaeth fyd-eang.

72 Mae cyfran y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn gyffredinol uwch mewn ysgolion cynradd na mewn ysgolion uwchradd. Mae nifer y bechgyn sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yr un fath â nifer y merched yn gyffredinol.

73 Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn hyrwyddo cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn weledol mewn ffyrdd amrywiol. Er enghraifft, mae arddangosfeydd o waith disgyblion yn amlwg ym mhob un o'r ysgolion. Gall disgyblion ddisgrifio'n glir beth yw testun yr arddangosfeydd, ac maent yn deall bod arddangosfeydd yn helpu i bwysleisio i ddisgyblion ac oedolion bwysigrwydd cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang.

74 Mae gan bob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fwrdd gwybodaeth ysgolion eco a'r cyngor ysgol, sy'n arddangos gwybodaeth briodol am waith y grwpiau hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn arddangos eu gwobrau, fel gwobrau 'Y Faner Ysgolion Eco ac Ysgolion Iach' mewn lle amlwg. Mae disgyblion a staff yn falch o'r cyflawniadau hyn a gall y rhan fwyaf o ddisgyblion esbonio beth roedd angen i'r ysgol ei wneud i ennill y gwobrau. Mae'r arddangosfeydd yn codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol ymhlith pobl sy'n ymweld â'r ysgol.

75 Pan fydd ADCDF yn nodwedd o waith yr ysgol a ymgorfforir yn dda, ac mae lefel dealltwriaeth disgyblion o faterion a chysyniadau cysylltiedig yn uchel, mae safon ac amlygrwydd arddangosfeydd o waith cysylltiedig yn dda iawn. Gall disgyblion ddisgrifio'n glir yr hyn y mae'r ysgol yn ei wneud i hyrwyddo'i gwaith yn y maes hwn ac maent yn teimlo'n falch o fod yn rhan ohono. Er enghraifft, mae gwaith un ysgol ar 'Hawliau'r Plentyn' yn nodwedd amlwg ar draws yr ysgol, lle mae arddangosfeydd cysylltiedig yn holl feysydd yr ysgol, ac mae gan y disgyblion ddealltwriaeth glir o'r egwyddorion allweddol sydd yn gysylltiedig â phob un ohonynt.

76 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio eu gwefan ac yn llunio ac anfon cylchlythyrau yn rheolaidd at rieni sydd â meysydd dynodedig i roi gwybod iddynt am waith yr ysgol ar ADCDF.  Mae hyn, yn ei dro, yn codi ymwybyddiaeth rhieni am faterion pwysig, ac yn awgrymu ffyrdd y gallant hefyd fod â rhan mewn datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yng nghymuned yr ysgol a thu hwnt.

77 Mae pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi dilyn cynlluniau achrededig mewn o leiaf un maes o ADCDF.  Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau achrediad ar wahanol lefelau yn dilyn y cynllun 'Ysgolion Eco'. Mae llawer ohonynt wedi cael cydnabyddiaeth am eu gwaith yn hyrwyddo 'Ysgolion Iach' hefyd.  Mae lleiafrif ohonynt wedi ennill 'Gwobr Ysgol Ryngwladol' am eu gwaith yn hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang.  Trwy godi ymwybyddiaeth disgyblion am fasnach deg a'i chefnogi, mae llawer o ysgolion wedi ennill statws 'Ysgolion Masnach Deg'.  Mae llawer o'r ysgolion wedi bod yn llwyddiannus hefyd wrth ennill cydnabyddiaeth am eu rhan yn cefnogi ac yn dilyn amrywiaeth o fentrau eraill.

78 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cytuno bod cymryd rhan mewn cynlluniau achrededig yn codi proffil ADCDF yn yr ysgol a'r gymuned leol.  Maent yn cytuno eu bod yn helpu i godi ymwybyddiaeth disgyblion ac yn gwella eu dealltwriaeth o rai egwyddorion allweddol cysylltiedig hefyd.  Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cymryd rhan weithredol ym mhob prosiect neu gynllun.  Er y gallai'r disgyblion hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol ennill dealltwriaeth well o rai egwyddorion allweddol cysylltiedig, nid yw hyn yn cael ei gyfleu yn ddigon da i'r disgyblion eraill bob amser.  Nifer fach o ysgolion yn unig sy'n gallu darparu tystiolaeth i gefnogi'r effaith gadarnhaol a gaiff y gwobrau hyn ar ddealltwriaeth disgyblion o ADCDF fel maes dysgu.

79 Mae llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ystyried bod y gwobrau yn fath o symbol statws, ac wedi iddynt eu hennill, nid ydynt yn aml yn rhoi llawer o flaenoriaeth i'r arfer a ddigwyddodd i ennill y wobr nes y daw'r amser iddynt gael eu hailasesu.  Mae rhai ysgolion yn teimlo bod ennill y gwobrau hyn yn ddiben ynddo'i hun.  Er enghraifft, roedd un ysgol, ar ôl ennill gwobrau 'Baner Blatinwm' a 'Statws Ysgol Iach', yn teimlo nad oedd 'unman arall i fynd.'

## Arweinyddiaeth, rheolaeth a chymorth ar gyfer ADCDF

80 Mae arweinwyr ym mwyafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg yn nodi ADCDF fel un o'u blaenoriaethau.  Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn gwneud hyn ac mewn llawer o'r ysgolion hyn, nid yw'r cyfrifoldeb am ddatblygu ADCDF yn ddigon clir, sy'n arwain at ymdriniaeth achlysurol a dealltwriaeth gyfyngedig disgyblion o faterion perthnasol.

81 Mae arweinwyr ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi nodi athrawon sydd â chyfrifoldeb penodol am ddatblygu ADCDF.  Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn cydnabod ei fod yn faes dysgu pwysig.  Mewn lleiafrif o'r ysgolion hyn, rhennir y cyfrifoldeb, ac mae un athro yn gyfrifol am ddatblygu cynaliadwy ac athro arall yn gyfrifol am ddinasyddiaeth fyd-eang.  Mewn un ysgol arbennig yr ymwelwyd â hi, lle mae ADCDF yn nodwedd gref, mae cydlynydd cyffredinol, sy'n goruchwylio tîm o staff eraill sydd â rolau penodol i ddatblygu gwahanol agweddau ar y gwaith.  Mae

hyn yn cynnwys cydlynwyr sydd â chyfrifoldeb am gysylltiadau rhyngwladol, byw yn iach, garddwriaeth ac ailgylchu a lleihau gwastraff. Mae rhai ysgolion wedi penodi cydlynydd ar gyfer ADCDF yn ddiweddar iawn.

82 Pan fydd ysgolion wedi nodi aelodau o staff sydd â chyfrifoldeb clir am arwain a datblygu ADCDF, mae'r ddarpariaeth yn effeithiol ar y cyfan, ac mae dealltwriaeth disgyblion o egwyddorion allweddol o leiaf yn dda. Pan nad yw cyfrifoldebau yn ddigon clir, nid yw hyn yn wir.

83 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion weithdrefnau yn eu lle i sicrhau atebolrwydd. Pan fydd ysgolion yn fwyaf llwyddiannus, mae ganddynt lwybrau atebolrwydd sy'n glir i athrawon ac arweinwyr. Mewn ysgolion cynradd, mae'r rhan fwyaf o gydlynwyr ADCDF yn atebol i'r pennaeth. Yn yr ysgolion uwchradd ac arbennig yr ymwelwyd â nhw, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn atebol i'r dirprwy bennaeth neu bennaeth adran.

84 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol sy'n ymwneud ag agweddau ar ADCDF yn y tair blynedd diwethaf. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae'r cydlynydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael eu trefnu gan asiantaethau allanol, ac o ganlyniad, wedi trefnu a chyflwyno hyfforddiant yn yr ysgol ar gyfer aelodau o staff. Mae llawer o'r hyfforddiant yn ymwneud ag agweddau penodol, fel arfer â chynlluniau achrededig fel 'Y Rhaglen Ysgolion Iach' neu'r 'Prosiect Ysgolion Eco.' Pan fydd ysgolion yn fwyaf llwyddiannus, ac yn amlygu ADCDF fel un o'u prif flaenoriaethau, mae hyfforddiant yn eang ac yn cynnwys llawer o agweddau ar y maes astudio. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio arbenigedd awdurdod lleol neu staff clwstwr i ddarparu cymorth â hyfforddiant. Mewn rhai ysgolion, lle mae hyfforddiant yn gyfyngedig iawn, ychydig iawn o gyfleoedd datblygu mae'r trefniadau mewnol yn ei ganiatáu ar gyfer unigolion.

85 Mewn un ysgol gynradd yr ymwelwyd â hi, mae'r cydlynydd wedi dilyn modiwl ADCDF fel rhan o radd Meistr. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth ymestyn dealltwriaeth o egwyddorion allweddol ADCDF, y maent wedi gallu eu defnyddio'n effeithiol i ddatblygu ymwybyddiaeth staff a dylanwadu ar ddarpariaeth. Mae rhai cydlynwyr ysgolion uwchradd yn gwerthfawrogi eu rôl fel aelodau o rwydweithiau ADCDF yr awdurdod lleol er mwyn diweddaru eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faterion allweddol.

86 Fe wnaeth un ysgol gynradd yr ymwelwyd â hi gyfeirio at ddarpariaeth yr awdurdod lleol o hysbysfwrdd ar-lein a chylchlythyr wythnosol, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff ac yn eu helpu i rannu arfer dda. Caiff llawer o ysgolion eu cefnogi'n dda gan unigolion arweiniol yn yr awdurdod lleol wrth ysgrifennu eu polisi a'u cynlluniau darpariaeth. Fodd bynnag, prin yw'r cymorth a gaiff rhai ysgolion gan yr awdurdod lleol, os o gwbl, ac maent yn dibynnu ar asiantaethau allanol am gymorth ac i fodloni eu hanghenion datblygiadol.

87 Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw ddangos bod angen rhagor o hyfforddiant mewn agweddau penodol ar ADCDF, yn enwedig mewn perthynas â newidiadau diweddar. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys cysylltiadau ag ysgolion rhyngwladol, Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig, ADCDF o fewn addysg bersonol a chymdeithasol, ac arfer adferol. Nododd rhai ysgolion hefyd y byddent yn gwerthfawrogi hyfforddiant ar integreiddio llythrennedd a rhifedd mewn ADCDF, yn

ogystal ag arweinyddiaeth a rheolaeth o ran ADCDF, yn enwedig wrth fonitro ac asesu. Awgrymodd rhai ysgolion hefyd y byddai cyfeirlyfr o gysylltiadau arfer dda yn y consortiwm rhanbarthol yn ddefnyddiol.

88 I ddatblygu dealltwriaeth staff a disgyblion o ADCDF, sefydlodd un ysgol uwchradd gysylltiadau gydag ysgol mewn cyd-destun diwylliannol cyferbyniol. Caiff hyn ei egluro yn astudiaeth achos 5.

**Astudiaeth achos 5**

**Cyd-destun**

Ysgol cyfrwng Saesneg 11-18 yng Nghonwy yw Ysgol Aberconwy. Mae 893 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae 16.5% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

**Strategaeth**

Fel rhan o'r ffordd y mae'r ysgol yn cynllunio ar gyfer ADCDF, sefydlodd gysylltiadau ag ysgol o ddiwylliant cyferbyniol.

**Gweithredu**

Dechreuodd yr ysgol gymryd rhan mewn rhaglen gan y Cyngor Prydeinig, ac yn 2008, teithiodd y dirprwy bennaeth i Tsieina i sefydlu partneriaeth gydag ysgol uwchradd yn Chonqing.

Ar ôl y daeargryn mawr a drawodd De Orllewin Tsieina, daeth yn anodd cyfathrebu â'r ysgol. Fodd bynnag, trwy weithio gyda'r Cyngor Prydeinig, llwyddodd Ysgol Aberconwy i gael athro o Tsieina i weithio yn yr ysgol bob blwyddyn. Fe wnaeth yr ysgol gynnwys ysgolion cynradd sy'n ei bwydo yn rhan o'r prosiect hefyd.

Wrth i'r gwaith barhau, cafodd yr ysgol gyllid i sefydlu 'Ystafell Ddosbarth Confucius' trwy Sefydliad Confucius Hanban yn Tsieina. Roedd Aberconwy yn un o ddwy ysgol yng Ngogledd Cymru i gael y cyllid hwn. Fe wnaeth yr ysgolion llwyddiannus gydweithio ar y prosiect. O ganlyniad, mae Tsieina wedi cyfrannu'n ariannol a galluogwyd yr ysgol i sicrhau ystafell ddosbarth ddynodedig a buddsoddi mewn adnoddau TGCh a deunyddiau ysgrifenedig, a sicrhawyd bod athro o Tsieina yn cael ei neilltuo am ddwy flynedd. Fe wnaeth Sefydliad Confucius yng Nghaerdydd gefnogi'r ysgol hefyd trwy ddarparu cyllid am gynorthwyydd iaith Tsieineaidd ychwanegol.

Mae athrawon yn trefnu 'diwrnodau Tsieina' hefyd i ddisgyblion gael cipolwg ar ddiwylliant Tsieina. Ar hyn o bryd, mae myfyrwyr chweched dosbarth Bagloriaeth Cymru yn astudio Mandarin fel elfen iaith y cwrs. Mae dwy set o ddisgyblion Blwyddyn 9 yn astudio Mandarin fel eu hail iaith ac mae grwpiau mawr o ddisgyblion ar draws yr ysgol ac yn yr ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol yn elwa ar ddiwrnodau dysgu thema 'Gorwelion' yr ysgol, pan gânt gyfle i ddysgu am iaith a diwylliant Tsieina.

Ymwelodd y pennaeth â Tsieina eleni yn westai Hanban. Rhan bwysig o'r ymweliad hwn oedd cyfarfod ag ysgol bartner arfaethedig arall.

**Deilliannau**

Mae cysylltiadau'r ysgol trwy'r prosiect wedi galluogi disgyblion i gael cipolwg cryf ar iaith, arferion a diwylliant gwlad gyferbyniol. Cyflawnir hyn fel rhan o ddinasyddiaeth fyd-eang sy'n cael ei haddysgu mewn cyd-destun bywyd go iawn. Mae disgyblion wedi cael y cyfle i ddysgu iaith arall hefyd.

89 Mae mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ymwybodol o gyhoeddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru: 'Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang – Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion' (2008). Mae llawer ohonynt wedi defnyddio'r ddogfen i lywio eu polisïau a'u gweithdrefnau. Mae bron pob un o'r ysgolion lle mae darpariaeth a safonau dealltwriaeth disgyblion o egwyddorion allweddol ADCDF yn dda, yn ymwybodol o'r cyhoeddiad, ac maent yn ei ddefnyddio i lywio ac arwain arfer. Mae tua hanner yr ysgolion yn defnyddio'r atodiad sydd wedi'i gynnwys yn: 'Sefydlu datganiad sefyllfa ar gyfer Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang yng Nghymru, Estyn, 2006' fel model ar gyfer hunanarfarnu – gweler Atodiad 2.

90 Mae llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn rhannu arfer dda neu'n gweithio ar brosiectau ar y cyd ag ysgolion lleol eraill. Er enghraifft, mae'r ysgol yn astudiaeth achos 6 yn ysgol arweiniol ar gyfer Prosiect Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig ac arfer adferol,[1] ac mae aelodau o staff yn aml yn rhannu eu harbenigedd yn y meysydd hyn gydag athrawon o ysgolion eraill.

**Astudiaeth achos 6**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Blaenymaes yn gwasanaethu ardal Cymunedau yn Gyntaf ar ochr ddwyreiniol Abertawe. Mae 190 o ddisgyblion ar y gofrestr ac mae dros 70% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sef y gyfran uchaf ond un ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

**Strategaeth**

Oherwydd amgylchiadau cymdeithasol heriol llawer o ddisgyblion, nod yr ysgol yw gwneud ei hun yn amgylchedd diogel a gofalgar lle caiff disgyblion ystod eang o gyfleoedd i brofi'r byd uniongyrchol ac ehangach o'u cwmpas. Mae hyn wedi arwain at y nod o greu ethos ysgol gyfan o gyfrifoldeb a pharch atyn nhw eu hunain, at bobl eraill a'r amgylchedd, ac mae ADCDF yn ffurfio rhan greiddiol o athroniaeth ac arfer yr ysgol.

Nod yr ysgol oedd defnyddio agenda 'parchu hawliau' yr agwedd 'dewisiadau a phenderfyniadau' ar ADCDF yn llwyfan tuag at wella safonau, presenoldeb ac ymddygiad.

[1] Menter a ddefnyddir i geisio lleihau gwrthdaro, anghydfod, ymddygiad gwrthgymdeithasol a bwlio yw arfer adferol.

**Gweithredu**

Cyflwynodd yr ysgol ddwy fenter allweddol yn llwyddiannus i helpu i gefnogi'r agenda parchu hawliau a gwella deilliannau disgyblion. Cynllun cyfiawnder adferol oedd y rhain ac enillwyd gwobr lefel 2 UNICEF 'Ysgol sy'n Parchu Hawliau'.

Mae'r ysgol wedi ymgorffori'r agenda 'parchu hawliau' ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol: polisïau'r ysgol, gwasanaethau, pob agwedd ar addysgu a dysgu a phrosiectau cymdeithasol fel 'Pythefnos Masnach Deg' a phenodi 'llysgenhadon gwrth-fwlio' disgyblion.

I helpu i ymgorffori'r agenda parchu hawliau, mae'r ysgol yn arddangos yr hawliau yn yr ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Dewisodd y disgyblion fasgot i'w hatgoffa am eu hawliau, ac mae gan bob dosbarth degan meddal 'draig parchu hawliau' o'r enw Rhodri. Mae gan yr ysgol gysylltiad agos â'i llysgennad UNICEF, sydd wedi mynd â Rhodri ar daith i Kilimanjaro a Machu Picchu i godi arian i gynorthwyo plant o gwmpas y byd, nad yw eu hawliau sylfaenol yn cael eu bodloni. Mae'r llysgennad yn mynd yn ôl i'r ysgol i drafod taith Rhodri gyda disgyblion a staff a daw hyn yn rhan o waith prosiect y plant. Er enghraifft, crëwyd cerdd gan ddisgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2: 'Recipe for a Rights Respecting School', ac fe wnaethant gyflwyno'r gerdd fel rhan o wythnos gwrth-fwlio yn y Senedd.

**Deilliannau**

Mae cyfranogiad disgyblion yn y rhaglen cyfiawnder adferol a gwobr ysgol 'parchu hawliau' UNICEF wedi eu helpu i:

- wneud penderfyniadau gwybodus am agweddau ar fywyd yr ysgol a'r gymuned a chymryd rhan ynddynt;
- datblygu synnwyr gwell o gyfrifoldeb a pharch atyn nhw eu hunain a phobl eraill;
- caffael dealltwriaeth aeddfed o 'hawliau dynol' a 'hawliau'r plentyn'; a
- gwella'u hymddygiad, eu presenoldeb a'u deilliannau.

91 Mae hyder athrawon wrth gyflwyno ADCDF yn dda neu'n well mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Roedd ychydig iawn o arweinwyr yn ansicr ynghylch pa mor hyderus oedd eu staff yn cyflwyno pob agwedd arni. Ac eto, mewn un o'r ysgolion hyn, mae dealltwriaeth disgyblion o egwyddorion allweddol ADCDF yn dda.

92 Mae cynrychiolwyr ar ystod o gyrff allanol sy'n gysylltiedig ag ADCDF mewn tua hanner o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Mae'r rhain, er enghraifft, yn cynnwys Pwyllgor Eco Cenedlaethol Cymru, Fforwm Amgylcheddol Abertawe, prosiect teirieithog CILT, Masnach Deg Cymru; Oxfam Cymru, Cymorth Cristnogol, Masnach Deg Cymru, Cyfanfyd a Chanolfan Cymru ar gyfer Affrica. Yn yr ysgolion hyn, mae statws uchel yn tueddu i gael ei roi i ADCDF. Mae athrawon yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir gan gyrff allanol perthnasol wrth godi eu hymwybyddiaeth am faterion presennol a rhoi cyfleoedd hyfforddi iddynt.

93 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnwys agweddau ar ADCDF yn eu gweithdrefnau hunanarfarnu parhaus ac maent yn ei harfarnu bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae arweinwyr yn cyfyngu arfarnu i ddarpariaeth a chynllunio yn gyffredinol, ac ychydig iawn o ysgolion sy'n arfarnu effaith ei darpariaeth ar ddealltwriaeth disgyblion.

94 Rhoddwyd blaenoriaeth i ADCDF yng nghynlluniau datblygu llawer o ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg yn y tair blynedd diwethaf.  Ar y cyfan, mae gan ddisgyblion yn yr ysgolion hyn ddealltwriaeth glir o'i hegwyddorion allweddol.

95 Mae tua hanner o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cynnwys ADCDF fel eitem agenda mewn cyfarfodydd staff ac yng nghyfarfodydd yr uwch dîm rheoli.  Mae staff bron ym mhob ysgol yn trafod materion cysylltiedig pan fo'n briodol.

96 Mae gan aelod o'r corff llywodraethol gyfrifoldeb penodol am ADCDF mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw.  Mae llawer o'r llywodraethwyr hyn yn cyfarfod â chydlynwyr yn rheolaidd i drafod datblygiadau ac adrodd yn ôl i gyfarfod y corff llywodraethol llawn.  Mae hyn yn sicrhau bod y llywodraethwyr yn gwybod am y gweithgareddau a'r datblygiadau yn yr ysgol yn y maes hwn ac mae hyn yn eu helpu i gynorthwyo'r ysgol yn briodol.  Ychydig iawn o lywodraethwyr sydd wedi cael hyfforddiant am ADCDF heblaw gan yr ysgol.  Prin yw'r llywodraethwyr sy'n ymwybodol o ddigwyddiadau hyfforddi'r awdurdod lleol sy'n ymwneud yn benodol ag ADCDF.  O ganlyniad, prin yw'r llywodraethwyr sy'n teimlo'n hyderus i gefnogi neu herio'r ysgolion mewn perthynas â'r maes gwaith hwn.

# Atodiad 1

## Sail y dystiolaeth

Mae canfyddiadau ac argymhellion yr arolwg thematig wedi'u seilio ar ddadansoddiad o ganfyddiadau arolygu Estyn o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig rhwng 2010 a 2013 ac ymweliadau â sampl gynrychioliadol o 10 ysgol gynradd, 10 ysgol uwchradd a dwy ysgol arbennig.  Mae'r sampl yn cynnwys enghreifftiau o ysgolion sy'n dangos enghreifftiau o arfer dda mewn ADCDF.

Yn ystod yr ymweliadau ag ysgolion, bu arolygwyr yn cyfweld ag aelodau o'r uwch dîm rheoli, athrawon sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu ADCDF, sampl o ddisgyblion a disgyblion sy'n aelodau o bwyllgorau perthnasol.  Fe wnaethant graffu ar waith disgyblion ac arddangosfeydd perthnasol o gwmpas yr ysgolion hefyd.

## Sampl o ysgolion yr ymwelwyd â nhw

Ysgol Aberconwy, Conwy
Ysgol Glancegin, Gwynedd
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed, Abertawe
Ysgol Gymunedol Cwmtawe, Castell Nedd Port Talbot
Ysgol Gynradd Blaenymaes, Abertawe
Ysgol Gynradd Dyffryn y Swistir, Sir Gaerfyrddin
Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Sant Phillip Evans, Caerdydd
Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw, Abertawe
Ysgol Gynradd Mount Stuart, Caerdydd
Ysgol Gynradd Sant Mark, Sir Benfro
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandysilio, Powys
Ysgol Gyfun Caerllion, Casnewydd
Ysgol Gyfun Pontllanffraith, Caerffili
Ysgol Hafod Lon, Gwynedd
Ysgol Heronsbridge, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Plascrug, Ceredigion
Ysgol Uwchradd Aberteifi, Ceredigion
Ysgol Uwchradd Bedwas, Caerffili
Ysgol Uwchradd Crucywel, Powys
Ysgol Uwchradd Eifionydd, Gwynedd
Ysgol Y Berllan Deg, Caerdydd

## Cyfeiriadau

Arweiniad atodol ar gyfer arolygwyr ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang mewn ysgolion, Estyn, 2013

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang – Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang – Strategaeth Weithredu, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006

Sefydlu datganiad sefyllfa ar gyfer Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang yng Nghymru, Estyn, 2006

# Atodiad 2

## O atodiad yn adroddiad 2006: Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-Eang – model

| lefel ⌚ agwedd ⌚ | sylfaenol | yn datblygu | datblygwyd | wedi'i ymgorffori |
|---|---|---|---|---|
| **ymdriniaeth yn y cwricwlwm** | • Rhoddir mwy o amlygrwydd i faterion amgylcheddol na datblygu cynaliadwy neu ddinasyddiaeth fyd-eang<br>• Ymdriniaeth wedi'i chyfyngu i ofynion pwnc i raddau helaeth | • Eir i'r afael yn eglur ag addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy neu addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang mewn rhai pynciau<br>• Cynllun gwobrwyo neu gysylltiadau'r ysgol yn cyfrannu at rai agweddau ar y cwricwlwm<br>• Ystyrir bod ADCDF yn ymwneud yn bennaf â materion amgylcheddol | • Cynllunnir ar gyfer ADC a DF ac eir i'r afael â nhw mewn ystod o bynciau<br>• Mae cynlluniau gwobrwyo, mentrau, cysylltiadau'r ysgol yn cyfrannu at gwricwlwm ysgol gyfan | • Caiff ADCDF ei hintegreiddio ar draws y cwricwlwm ysgol gyfan<br>• Datblygu ADCDF-caiff dealltwriaeth, medrau a gwerthoedd perthnasol eu gwneud yn eglur mewn cynlluniau<br>• Caiff deilliannau ar gyfer dysgwyr eu monitro |
| **ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, medrau a gwerthoedd dysgwyr** | • Mae wedi'i gyfyngu i rai meysydd pwnc<br>• Dealltwriaeth gyfyngedig, os o gwbl, o gysylltiadau lleol-byd-eang ac o ADC a DF | • Gallu cymhwyso dysgu ADCDF ar draws pynciau ac mewn gweithgareddau allgyrsiol<br>• Ymwybyddiaeth o amrywiaeth a chysylltiadau lleol a byd-eang<br>• Datblygu medrau a gwerthoedd cymdeithasol | • Gallu i gysylltu materion lleol â phryderon byd-eang ac i'r gwrthwyneb<br>• Datblygiad a dealltwriaeth glir o faterion ADC a DF cyfoes<br>• Medrau ymholi, dadansoddi beirniadol a chyfathrebu wedi'u datblygu'n glir yn eu cyd-destun | • Mae dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth a'u medrau trwy ymgymryd â'u mentrau eu hunain |
| **ymddygiad dysgwyr** | • Mae wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i ymglymiad rhai dysgwyr mewn ailgylchu a mentrau achlysurol fel digwyddiadau elusennol | • Datblygu cyfranogiad dysgwyr<br>• Ar gyfer ADCDF, mae'n ymwneud yn bennaf â sefyllfaoedd amgylcheddol a/neu ddigwyddiadau ar eu pen eu hunain | • Cyfranogiad dysgwyr, gan gynnwys gwneud penderfyniadau, yn rhan barhaus o fywyd ysgol neu goleg, e.e. trwy'r cyngor ysgol neu'r cyngor myfyrwyr<br>• Cymorth i gyfoedion, er enghraifft, datrys gwrthdaro/gwrth-fwlio | • Mae dysgwyr yn gwneud awgrymiadau rheolaidd ar gyfer mentrau ac yn mynd â mentrau mewn arferion ADC a DF allan o'r ysgol |
| **polisïau ac arferion sefydliadol** | • Yn gyffredinol, canfyddir bod ADCDF yn 'fenter arall'<br>• Efallai caiff mentrau ailgylchu eu hyrwyddo | • Mae cymryd rhan mewn cynllun neu fenter yn nodweddiadol ddibynnol ar un neu ddau aelod o staff<br>• Sylw eglur i arfer ynni cynaliadwy<br>• Mae rhai aelodau o staff yn ymwybodol o ADCDF trwy DPP | • Mae uwch reolwyr yn darparu arweinyddiaeth ar ADCDF<br>• Mae cynlluniau a pholisïau datblygu yn cyfeirio at ADCDF | • Mae ADCDF yn ffurfio rhan greiddiol o'r athroniaeth a'r arfer sefydliadol, ac fe gaiff ei monitro, ei harfarnu a'i datblygu'n rheolaidd<br>• Caiff adnoddau a chyfrifoldebau ADCDF penodol eu dyrannu mewn cyllidebau |

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Huw Watkins AEM | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Anthony Bate AY | Arolygydd Tîm |
| Denise Wade AEM | Arolygydd Tîm |
| Gareth Wyn Jones AEM | Arolygydd Tîm |
| Michelle Gosney AY | Arolygydd Tîm |